

PADESWOOD CCS

Cipio a storio carbon Padeswood

Gwneud Sir y Fflint yn arweinydd y byd mewn sment sero net

Ymgynghoriad statudol - ffurflen adborth

Mae cyfleuster cipio a storio carbon Padeswood (CCS) yn brosiect uchelgeisiol a fydd yn sefydlu gwaith sment sero net cyntaf y DU. Drwy gynhyrchu sment sero net, bydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatgarboneiddio'r diwydiant adeiladu.

Mae sment yn rhan hanfodol o drawsnewidiad y DU i sero net. Mae'n hanfodol i ddatblygu popeth o ffermydd gwynt ar y môr newydd, i orsafoedd pŵer niwclear, i seilwaith trafnidiaeth glân, i ysgolion, cartrefi ac ysbytai, a'r miloedd o swyddi y bydd y prosiectau hyn yn eu creu.

Fodd bynnag, mae cynhyrchu sment yn garbon-ddwys ar hyn o bryd. Mae cyfran fawr o'r allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu wrth weithgynhyrchu sment yn deillio o'r prosesau cemegol sy'n gysylltiedig â gwneud sment ac ni ellir mynd i'r afael â nhw drwy ddefnyddio ffynonellau ynni neu danwydd adnewyddadwy. Yn yr un modd, nid oes dewis ymarferol arall yn lle concrit yn y diwydiant adeiladu. Yr unig ffordd o gynhyrchu'r sment sydd ei angen ar y DU, heb lawer iawn o allyriadau carbon, yw drwy gipio a storio carbon.



Yn bennaf mae ein prosiect yn cynnwys cyfleuster cipio carbon, a fydd yn ein galluogi i gipio allyriadau carbon deuocsid (CO₂) o'r broses gweithgynhyrchu sment. Nod y datblygiad arfaethedig yw integreiddio i rwydwaith HyNet North West drwy gipio CO₂ o'r gwaith sment i'w gludo a'i storio yng nghyfleusterau storio Bae Lerpwl.

Ar ôl cam cychwynnol yr ymgynghoriad cymunedol yn 2023, fe wnaethom barhau i ddatblygu'r prosiect ac rydym ni wedi diweddu ein cynigion. Mae'r adborth a gafwyd i'r cam blaenorol wedi cyfrannu at ein cynlluniau ac wedi helpu i'w siapio. Rydym nawr yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol, statudol ar ein cais cynllunio drafft.

Hoffem wybod beth yw barn pobl leol a chynrychiolwyr sefydliadau lleol am ein cynigion, cyn cyflwyno ein cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC).

Cwblhewch y ffurflen hon i roi eich barn i ni. Os cewch unrhyw broblemau wrth lenwi'r ffurflen, neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ebost: padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com

Rhif ffôn: 0800 046 9642

Post: FREEPOST PADESWOOD CCS



Heidelberg
Materials

Amdanoch chi

1. Enw

2. Sefydliad (os yw'n berthnasol)

3. Cyfeiriad a chod post

4. Oed

- Dan 18 oed
- 18-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65+
- Mae'n well gen i beidio â dweud

5. Pa rywedd ydych chi'n uniaethu gyda orau?

- Benywaidd
- Gwrywaidd
- Trawsryweddol
- Anneuaidd
- Arall (nodwch)

-
- Mae'n well gen i beidio â dweud

6. Tua faint o amser ydych chi wedi byw yn yr ardal?

- Llai na 3 mis
- 3 - 6 mis
- 7 - 11 mis
- 1 - 2 mlynedd
- 3 - 5 mlynedd
- 6 - 10 mlynedd
- 11+ mlynedd
- Mae'n well gen i beidio â dweud

7. Oeddech chi eisoes yn ymwybodol o'r prosiect cyn yr ymgynghoriad hwn?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

8. Sut daethoch chi'n ymwybodol ohono?

- Wedi derbyn llythyr gan Heidelberg Materials (Hanson gynt)
- Wedi derbyn neges e-bost gan Heidelberg Materials
- Wedi ei weld mewn papur newydd lleol
- Wedi ei weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- Wedi ei weld ar wefan y prosiect
- Ar lafar gwlad
- Pwyllgor cyswllt lleol
- Arall (rhowch fanylion)

9. A fydd ech chi'n hoffi derbyn yr wybodaeth ddiweddgaraf am y prosiect? Os byddech, nodwch eich cyfeiriad ebost.

Yr angen am y prosiect

10. Nodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: mae newid yn yr hinsawdd yn fater pwysig a dylid cymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

11. Cipio a storio carbon yw'r broses o gipio carbon deuocsid (CO₂) cyn iddo fynd i mewn i'r atmosffer, ei gludo a'i storio. Dywedwch wrthym a ydych yn meddwl y dylai cwmnïau ddatblygu prosiectau cipio a storio carbon i warchod yr amgylchedd.

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu
- Gwrthwynebu
- Gwrthwynebu'n gryf
- Ddim yn siŵr

Eich barn am y prosiect

12. Ydych chi'n cefnogi cynllun Heidelberg Materials UK i gipio allyriadau CO₂ o'r broses gweithgynhyrchu sment yn Padeswood?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu
- Gwrthwynebu
- Gwrthwynebu'n gryf
- Ddim yn siŵr

13. Pa rai o fanteision y prosiect sydd bwysicaf yn eich barn chi? Nodwch bob opsiwn yn nhreft eu pwysigrwydd, gydag 1 yn cynrychioli'r 'mwyaf pwysig', a 5 yn cynrychioli'r 'lleiaf pwysig', neu dewiswch 'Dydw i ddim yn croesawu unrhyw un o'r manteision hyn'

- Denu buddsoddiad – dros £600 miliwn i'r prosiect a'r rhanbarth
- Cipio allyriadau CO₂ – hyd at 800,000 tunnell y flwyddyn
- Creu swyddi newydd – 54 amser llawn, a hyd at 350 yn ystod y gwaith adeiladu
- Diogelu swyddi presennol a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant adeiladu
- Gwneud Sir y Fflint yn arweinydd byd-eang o ran gweithgynhyrchu sero net – sefydlu cyfleuster sment sero net cyntaf y DU, a phrosiect enghreifftiol byd-eang
- Dydw i ddim yn croesawu unrhyw un o'r manteision hyn

Eich barn ar fanylion y prosiect

Trosolwg

14. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar osodiad arfaethedig y safle?

Oes (nodwch) Nac oes

Cyfleuster cipio carbon

15. Ydych chi'n cefnogi ein technoleg cipio carbon arfaethedig?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu
- Gwrthwynebu
- Gwrthwynebu'n gryf
- Ddim yn siŵr

Rhowch wybod i ni am y rhesymau dros eich ymateb ac unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar ein technoleg cipio carbon arfaethedig.

16. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar osodiad arfaethedig y cyfleuster cipio carbon?

Oes (nodwch) Nac oes

Gorsaf bŵer a gwres gyfun

17. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr orsaf bŵer a gwres gyfun?

Oes (nodwch) Nac oes

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) wedi cael ei baratoi i gefnogi'r cais Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae AEA yn adnodd a ddefnyddir i nodi, asesu a phennu arwyddocâd effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd prosiect.

Mae'r drafft Datganiad Amgylcheddol, sy'n adrodd ar ganfyddiadau'r AEA, wedi cael ei lywio gan gam 'cwmpasu' y prosiect hwn, sef y broses o benderfynu i ba raddau y bydd pob ffactor amgylcheddol yn cael sylw yn yr AEA. Cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu AEA i PCAC ym mis Tachwedd 2022, a chyhoeddodd PCAC ymateb ar ffurf Cyfarwyddyd Cwmpasu ym mis Ebrill 2023. Roedd y Cyfarwyddyd Cwmpasu hwn yn nodi pa ffactorau amgylcheddol yr oedd PCAC eisiau eu cynnwys yn yr AEA. Cafodd y ffactorau canlynol eu cwmpasu i'r AEA gan Gyfarwyddyd Cwmpasu PCAC:

- Bioamrywiaeth
- Ansawdd yr aer
- Yr hinsawdd
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Y dirwedd a nodweddion gweledol
- Sŵn a dirgryndod
- Traffig a thrafnidiaeth
- Tir a phriddoedd
- Damweiniau mawr a thrychinebau
- Asedau materol a gwastraff

Mae rhagor o wybodaeth am yr asesiad ac effeithiau posibl y ffactorau uchod ar gael yn ein llyfrynn ymgynghori. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y drafft Datganiad Amgylcheddol a'i Grynnodeb Annhechnegol, sydd i'w gweld ar wefan ein prosiect: [padeswoodccs.co.uk](#)

18. Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, a oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiad o'r effeithiau posibl y gallai'r prosiect eu cael ar unrhyw un o'r ffactorau amgylcheddol a restrir uchod, a'r mesurau rydym yn eu cynnig i liniaru'r effeithiau hynny? Nodwch pa ffactorau yr hoffech roi sylwadau arnynt yn benodol.

Oes (nodwch) Nac oes

Manteision cymunedol lleol

19. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y manteision cymunedol posibl sy'n gysylltiedig â'r prosiect?

- Oes (nodwch) Nac oes

20. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am brosiect Cipio a Storio Carbon Padeswood.

Ynghylch yr ymgyngħoriad

21. Pa mor addysgiadol oedd ein digwyddiadau wyneb yn wyneb?

- Addysgiadol iawn
- Addysgiadol
- Gweddol addysgiadol
- Ddim yn addysgiadol nac yn anaddysgiadol
- Anaddysgiadol
- Ddim yn siŵr
- Wnes i ddim mynd i ddigwyddiad

22. Pa mor addysgiadol oedd ein deunyddiau ymgyngħori?

- Addysgiadol iawn
- Addysgiadol
- Gweddol addysgiadol
- Ddim yn addysgiadol nac yn anaddysgiadol
- Anaddysgiadol
- Ddim yn siŵr

Cyflwyno'r ffurflen adborth hon

Mae copiāu electronig o'r holl ddogfennau ymgyngħori, gan gynnwys y ffurflen adborth hon, i'w gweld ar-lein ar gwefan y prosiect [padeswoodccs.co.uk](#).

Gallwch chi darparu eich adborth gan ddefnyddio'r ffurflen hon, trwy ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni drwy e-bost neu Rhadbost:

- Cychwch ein gwefan yn [padeswoodccs.co.uk](#), i dod o hyd i fersiwn ar-lein o'r ffurflen adborth hon
- Ebostiwch eich holiadur wedi'i gwblhau, neu adborth yn padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com
- Dychwelwch y ffurflen adborth hon yn rhad ac am ddim trwy ysgrifennu i **FREEPOST PADESWOOD CCS** (dim stamp gofynnol).

Bydd yr ymgyngħoriad statudol yn rhedeg o dydd Mawrth 02 Gorffennaf i 11:59pm Dydd Llun 12 Awst 2024. Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno'ch adborth i ni o'r blaen y dyddiad cau, fel y gellir ei ystyried yn ein cynigion.

Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol, adborth neu os hoffech chi gysylltu â thîm y prosiect, anfonwch ebost at padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com neu ffoniwch **0800 046 9642**

Diogelu Data

Bydd eich sylwadau'n cael eu dadansoddi gan Castle Cement Ltd ac unrhyw un o'i asiantau penodedig. Efallai y bydd copiāu ar gael, maes o law, i Gyngor Sir y Fflint ac awdurdodau statudol perthnasol eraill. O ganlyniad, gellir ymatebion gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhoi ar gofnod cyhoeddus. Bydd Castle Cement Ltd a'i asiantau penodedig yn cadw eich manylion personol yn ddiogel, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol, a byddant yn eu defnyddio dim ond mewn cysylltiad â'r broses ymgyngħori a'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu dilynol ac, ac eithrio fel y nodir uchod, ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i drydydd partïon.

Cyfeiriwch at ein Hysbysiad Preifatrwydd i gael rhagor o fanylion: [heidelbergmaterials.co.uk/en/privacy-policy](#)

Ebost:

padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com

Rhif ffôn:

0800 046 9642

Post:

FREEPOST PADESWOOD CCS



Scan the QR code to be directed
to our feedback form

This document is also available in
English on our website here